

# Ymgynghoriad ar samplo cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus i'w hadolygu

Medi 2016

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi mai eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog hawlfraint hwnnw hefyd.

(h) Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2016

# Cynnwys

Ynghylch y CFfC	4
Trosolwg	5
Y broses ymgynghori	6
Rhan 1: Yr hyn rydym yn ei newid a pham	8
Rhan 2: Y newid i'r fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus	9
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	11
Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u hel at ei gilydd	18

**Rhaid ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn Dydd Llun 31 Hydref 2016.**

# Ynghylch y CFfC

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith yw gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

- Mae ein prif waith yn cynnwys:
- gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr, technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol, a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a'u hyfforddiant
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
- ymchwilio i bryderon nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau, a gweithredu i gyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fo angen diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig er mwyn iddynt ddarparu gwasanaeth effeithiol a diogel i gleifion
- arolygu fferyllfeydd cofrestredig i sicrhau eu bod yn cyrraedd ein safonau.

# Trosolwg

Mae'r CFC yn ymgynghori tan ddydd **Llun 31 Hydref 2016** ar ddull newydd o alw am gofnodion datblygiad proffesiynol parhaus – wedi'u cwblhau gan weithwyr fferyllol proffesiynol – i'w hadolygu. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch ein dulliau o wneud hynny ar hyn o bryd yma: [www.pharmacyregulation.org/education/continuing-professional-development](http://www.pharmacyregulation.org/education/continuing-professional-development)

Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig ym Mhrydain. Ein gwaith yw gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd ac, yn benodol, yr aelodau hynny o'r cyhoedd sydd ag arnyn nhw angen neu sy'n defnyddio gwasanaethau gweithwyr fferyllol proffesiynol neu'r gwasanaethau a ddarperir mewn fferyllfeydd cofrestredig.

Un o'n dulliau gweithredu yw disgwyl i **bob** fferyllfeydd a thechnegydd fferyllol wneud gweithgareddau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) bob blwyddyn. Rydym hefyd yn gofyn i aelodau gadw cofnod o'u DPP a'i gyflwyno i ni, i'w adolygu, bob pum mlynedd fel arfer.

Roedd 99.7% o'r cofnodion yr edrychom arnynt yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf yn ateb ein gofynion ar y cynnig cyntaf.

Rydym wedi dysgu nad yw ein dull presennol o wirio pob gweithiwr fferyllol proffesiynol bob pum

mlynedd yn gymesur nac yn effeithlon wrth hybu arferion proffesiynol cofnodi gweithgareddau datblygu a myfyrio arnynt.

Yn y dyfodol, nid ydym yn awyddus i alw i mewn holl gofnodion DPP pob gweithiwr fferyllol proffesiynol. Yn hytrach, rydym am ddewis sampl llai o weithwyr fferyllol ar hap bob blwyddyn, a gofyn iddynt gyflwyno'u cofnodion i'w hadolygu. Rydym hefyd am barhau i ddewis gweithwyr proffesiynol sydd wedi'i chael hi'n anodd ateb ein gofynion, er mwyn sicrhau eu bod wedi gwellau'r ffordd y maen nhw'n cofnodi eu gweithgareddau.

Mae gennym dystiolaeth o'r peilot a wnaed yn 2016 sy'n dangos ei bod yn debygol y bydd gweithwyr fferyllol yn parhau i wneud gweithgareddau DPP a'u cofnodi. Bydd y dull newydd yn ein galluogi i ganolbwyntio ar y 0.3% sy'n ei chael hi'n anos bodloni ein gofynion.

Mae dwy ran i'r ddogfen ymgynghori hon:

**Yr hyn rydym yn ei newid a pham:** mae'r rhan hon yn esbonio'r hyn sy'n digwydd nawr a'r hyn rydym yn cynnig yn ei le. Mae'n egluro'r hyn a ystyriwyd gennym wrth gynnig y newid; ac mae'n egluro pam ein bod am newid.

**Y newid i'r fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus:** mae'r rhan hon yn cynnwys y newid drafft i'r fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus a'r hyn y byddai'n ei olygu yn ymarferol.

# Y broses ymgynghori

Mae'r CFFC wedi ystyried ystod o wybodaeth wrth ddatblygu'r ymgynghoriad hwn: yn enwedig yr adborth a gafwyd o'n hadolygiad ar ein hanghenion datblygiad proffesiynol parhaus presennol: [www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/5453\\_gphc\\_review\\_of\\_continuing\\_professional\\_development\\_general\\_pharmaceutical\\_council\\_iff\\_v3\\_00\\_final.pdf](http://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/5453_gphc_review_of_continuing_professional_development_general_pharmaceutical_council_iff_v3_00_final.pdf)

Rydym nawr am roi ein barn ar brawf er mwyn sicrhau bod ein dull yn ateb disgwyliadau gweithwyr fferyllol proffesiynol a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol. Rydym yn awyddus iawn i glywed eich barn ar y cynnig a ddisgrifir yn y ddogfen hon.

Bydd yr ymgynghoriad yn para chwech wythnos ac yn dod i ben ar ddydd **Llun 31 Hydref 2016**. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd croeso mawr i adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon i ystod o sefydliadau allweddol, yn cynnwys cyrff cynrychioli proffesiynol, cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant, a chyrrff cynrychioli cleifion.

Gobeithiwn y byddwch yn darllen yr ymgynghoriad hwn ac yn ystyried ymateb. Gallwch gael rhagor o gopiau o'r ddogfen o'n gwefan

[www.pharmacyregulation.org/continuing-professional-development-2016-consultation](http://www.pharmacyregulation.org/continuing-professional-development-2016-consultation) neu gallwch gysylltu â ni os hoffech y ddogfen mewn fformat gwahanol (mewn print brasach, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

## Sut i ymateb

Mae nifer o ffyrdd y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad. Gallwch gwblhau'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon neu fynd i'n gwefan [www.pharmacyregulation.org/get-involved/consultations/active-consultations](http://www.pharmacyregulation.org/get-involved/consultations/active-consultations) a chwblhau'r fersiwn ar-lein yno.

Os ydych yn cwblhau'r holiadur a ddarperir yma gofynnwn i chi ei anfon i:

- [consultations@pharmacyregulation.org](mailto:consultations@pharmacyregulation.org) gyda'r pwnc 'Samplu cofnodion DPP i'w hadolygu'

neu ei bostio i:

- **Ymateb Ymgynghoriad Samplu Cofnodion DPP i'w hadolygu**  
**Y Tîm Safonau**  
**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**  
**25 Canada Square**  
**Llundain**  
**E14 5LQ**

## Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun, anfonwch nhw i:

- [feedback@pharmacyregulation.org](mailto:feedback@pharmacyregulation.org)

neu eu postio atom yn:

- **Y Tîm Llywodraethiant**  
**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**  
**25 Canada Square**  
**Llundain**  
**E14 5LQ**

**Dim ymatebion ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.**

## Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law. Bydd y cyngor yn derbyn y dadansoddiad yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2016, ac yn ystyried yr ymatebion wrth drafod y newidiadau rydym am eu cyflwyno i'r ddogfen fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac esboniad o'r penderfyniadau a wnaed. Bydd modd i chi weld y rhain ar ein gwefan [www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org)

# Rhan 1: Yr hyn rydym yn ei newid a pham

Rydym yn ymgynghori ar newid i baragraff 3.1 ein dogfen fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus. Rydym yn cynnig newid bychan i'r geiriad fydd yn newid ein dull gwirio cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr fferyllol.

Ar hyn o bryd, rydym fel arfer yn gwirio cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus pob fferylllydd a thechnegydd fferyllol bob pum mlynedd. Golyga hyn fod gofyn i weithwyr fferyllol gyflwyno'u cofnodion DPP o leiaf bob pum mlynedd, ond mae disgwyl iddynt gadw cofnodion drwy'r amser.

Rydym am i'n dull cyffredinol aros yn ddigyfnewid (yn enwedig y disgwyl i gadw cofnodion yn barhaus) **heblaw am** y ffordd yr ydym yn galw am gofnodion i'w hadolygu. Rydym am ddewis ar hap **o leiaf** 2.5% o'r gweithwyr fferyllol proffesiynol (tuag 1 o bob 40) bob blwyddyn.

Wrth ddatblygu'r dull hwn, fe ystyriom:

- yr hyn a glywom drwy'r adolygiad ar ein dull presennol a oedd yn holi barn gweithwyr fferyllol a'r bobl sy'n adolygu eu cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus
  - yr hyn a ddysgom wrth adolygu cofnodion pawb ar ein cofrestrï proffesiynol yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf
  - yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud wrth ddatblygu ein dull ehangach i sicrhau bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau drwy gydol eu gyrfa
  - yr hyn mae rheoleiddwyr proffesiynol eraill yn ei wneud.
- Credwn fod y dull a awgrymir gennym yn fwy cymesur, effeithiol, hyblyg, targedig a chost effeithiol – ac yn debycach i'r hyn y mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol neu'n gweithio yn y maes yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, rydym am roi ein barn ar brawf drwy'r ymgynghoriad hwn.
- Rydym yn awyddus i gyflwyno'r newid hwn am y rhesymau canlynol:
- Mae 99.7% o weithwyr fferyllol proffesiynol wedi ateb ein gofynion datblygiad proffesiynol parhaus ar y cynnig cyntaf dros y bum mlynedd ddiwethaf.
  - Mae gweithwyr fferyllol wedi dweud wrthym eu bod yn gwneud gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r amser, ond yn dueddol o'u cofnodi ddim ond unwaith bob pum mlynedd pan fôm yn gofyn iddynt wneud. Dywedon nhw hefyd bod angen i ni wneud pethau'n wahanol er mwyn hybu cofnodi mwy rheolaidd ar weithgareddau.
  - Yn y dyfodol, bwriadwn gyflwyno rhagor o wiriadau er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr fferyllol wedi cofnodi ei weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn. Rydym am i'n hadolygiadau DPP ganolbwyntio ar roi gwell adborth i unigolion a grwpiau.
  - Mae rheoleiddwyr eraill yn defnyddio amryw o ddulliau, ond mae llawer eisoes yn defnyddio dull samplo. Gan ein bod yn gwybod cystal mae gweithwyr fferyllol yn ei wneud pan fôm yn gofyn iddynt gyflwyno cofnodion, ymddengys yn synhwyrol ac yn gymesur i ni ddilyn dull tebyg.
  - Mae'r peilot a wnaethom yn 2016 yn dangos bod y dull hwn yn fwy cymesur ac effeithiol.



# Rhan 2: Y newid i'r fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus

## Cyflwyniad

Yr unig newid rydym yn ei gynnig i'r fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus yw'r un i'r geiriau mewn **print trwm** ym mharagraff 3.1:

'Gall y CFFC ofyn i chi gyflwyno cofnod DPP i'w adolygu ar unrhyw bryd. **Fel arfer, bydd hyn yn digwydd bob pum mlynedd** ond efallai y gofynnir i chi mewn rhai achosion gyflwyno eich cofnod DPP yn amlach na hyn, os bu gofyn i chi ymgymryd â mesurau adferol yn sgil adolygiad o'ch cofnod DPP, er enghraifft, neu os oes gennych hanes o beidio â chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'n safonau.

Rydym am newid y paragraff hwn fel a ganlyn:

'Gall y CFFC ofyn i chi gyflwyno cofnod DPP i'w adolygu ar unrhyw bryd. **Fel arfer, byddwn yn galw am gofnodion DPP sampl wedi ei ddewis ar hap o aelodau bob blwyddyn. Os byddwn yn bodloni gofynion DPP y CFFC, ni fyddwn yn gofyn i chi eto y flwyddyn ganlynol.** Efallai y gofynnir i chi mewn rhai achosion gyflwyno eich cofnod DPP yn amlach na hyn, os bu gofyn i chi ymgymryd â mesurau adferol yn sgil adolygiad o'ch cofnod DPP, er enghraifft, neu os oes gennych hanes o beidio â chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'n safonau.'

Golyga'r newidiadau hyn:

- Y gallwn ganolbwyntio ein sylw a'n hadnoddau ar weithwyr fferyllol sy'n ei chael hi'n anos bodloni ein gofynion ar y cynnig cyntaf. A gallwn hefyd ddysgu mwy am y rhesymau dros yr anawsterau maen nhw'n eu cael.
- Bydd disgwyl o hyd i weithwyr fferyllol wneud a chofnodi gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus.
- Gallwn ddefnyddio sampl i ddeall i ba raddau y mae gweithwyr fferyllol yn debygol o fodloni ein gofynion ac addasu ein dull dros amser. Pe bai mwy o weithwyr fferyllol o sampl yn ei chael hi'n anodd bodloni'n gofynion, er enghraifft, mae'n bosibl y byddem yn adolygu canran uwch y flwyddyn ganlynol.
- Efallai y gelwir ar weithwyr i gyflwyno'u cofnodion DPP yn amlach na phob pum mlynedd, ond ddim yn amlach na phob dwy flynedd.
- Efallai y gelwir ar weithwyr i gyflwyno'u cofnodion DPP yn llai aml na phob pum mlynedd.
- Byddwn yn cyflwyno gwiriadau pellach yn y dyfodol ar gyfer pob aelod cofrestredig er mwyn sicrhau y cofnodir DPP yn flynyddol, a byddwn yn ymgynghori ar y cynigion hynny yn 2017.

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch ymatebion

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a glywom. Efallai y byddwn yn dyfynnu rhan o'ch ymateb yn yr adroddiad neu mewn dogfennau eraill. Ond os mai fel unigolyn preifat y byddwch wedi ymateb, ni fyddwn yn defnyddio'ch enw oni bai eich bod yn dweud wrthym y gallwn.

Efallai y cyhoeddwn eich ymateb yn llawn oni ddywedwch wrthym am beidio â gwneud hynny. Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech egluro pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a roddoch yn gyfrinachol. Fodd bynnag, ni allwn warantu cyfrinachedd ymhob amgylchiad.

Mae'n bosibl y bydd angen i'r CFFC ddatgelu gwybodaeth dan ddeddfau'n ymwneud â mynediad i wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer).

Os oes ymwadiad cyfrinachedd wedi ei greu gan eich system TG ynghlwm wrth eich ymateb, ni fydd hyn ynddo'i hun yn rhwymedig ar y CFFC.

Bydd unrhyw wybodaeth monitro cydraddoldeb a roddir gennych yn cael ei defnyddio i adolygu effeithiolrwydd ein proses ymgynghori. Ni fydd yn cael ei chyhoeddi yn rhan o ymateb cyhoeddedig.

# Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

## Ymateb i'r ymgynghoriad ar safonau ar samlo cofnodion DPP i'w hadolygu

Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech egluro pan eich bod o'r farn bod y wybodaeth a ddarperir gennych yn gyfrinachol. Ni allwn warantu y cedwir cyfrinachedd ymhob achos.

Peidiwch â defnyddio fy enw os cyhoeddir fy ymateb

Dywedwch wrthym os oes gennych bryderon ynghylch cyhoeddi unrhyw ran o'ch ymateb:

## Cwestiynau Cefndir

Hoffem ofyn am rywfaint o wybodaeth gefndir i gychwyn. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall barn grwpiau, unigolion a sefydliadau gwahanol a'n galluogi i ymateb yn well i'r farn honno.

### Ydych chi'n ymateb:

fel unigolyn – Ewch i adran A

ar ran sefydliad – ewch i adran B

## Adran A – Ymateb fel unigolyn

Rhowch eich:

enw: .....

cyfeiriad:  
.....

e-bost:  
.....

**Ble rydych chi'n byw?**

- Lloegr
  - Yr Alban
  - Cymru
  - Gogledd Iwerddon
  - arall (nodwch)
- .....

**Ydych chi'n ymateb fel:**

- aelod o'r cyhoedd
  - gweithiwr fferyllol proffesiynol – ewch i adran A1
  - hyfforddai cyn-gofrestru
  - myfyriwr
  - arall (rhowch fanylion)
- .....

## Adran A1 – Gweithwyr fferyllol proffesiynol

Ydych chi'n:

- fferylllydd
- technegydd fferyllol

**Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio ble rydych chi'n gweithio'n bennaf:**

- fferyllfa gymunedol
  - fferyllfa ysbyty
  - sefydliad gofal sylfaenol
  - addysg a hyfforddiant
  - diwydiant fferyllol
  - arall (rhowch fanylion)
- .....

## Adran B: Ymateb ar ran sefydliad

### Rhowch eich:

enw: .....

swydd: .....

sefydliad: .....

cyfeiriad: .....

.....

.....

e-bost:

.....

rhif cyswllt ar gyfer ymholiadau: .....

rhif ffôn cyswllt: .....

### Ydy eich sefydliad yn:

sefydliad fferyllol

sefydliad nad yw'n fferyllol

### Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio'ch sefydliad orau:

sefydliad yn cynrychioli gweithwyr proffesiynol

sefydliad yn cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd

sefydliad yn cynrychioli masnach neu ddiwydiant

fferyllfa gymunedol

fferyllfa aml gorfforaethol

fferyllfa annibynnol

sefydliad neu grŵp GIG

sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant

adaran neu sefydliad llywodraeth

corff rheoleiddio

arall (rhowch fanylion)

.....

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich barn ar y pwyntiau canlynol, ond rydym yn croesawu eich sylwadau ar unrhyw fater rydych yn awyddus ei godi ynghylch y newid i'r fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus.

## Eglurder

Dylai'r newidiadau fod yn eglur. Dyma'r paragraff wedi ei ddiwygio, gyda'r geiriau newydd mewn **print bras**:

'Gall y CFFC ofyn i chi gyflwyno cofnod DPP i'w adolygu ar unrhyw bryd. **Fel arfer, byddwn yn galw am gofnodion DPP sampl wedi ei ddewis ar hap o aelodau bob blwyddyn. Os byddwch yn bodloni gofynion DPP y CFFC, ni fyddwn yn gofyn i chi eto y flwyddyn ganlynol.** Efallai y gofynnir i chi mewn rhai achosion gyflwyno eich cofnod DPP yn amlach na hyn, os bu gofyn i chi ymgymryd â mesurau adferol yn sgil adolygiad o'ch cofnod DPP, er enghraifft, neu os oes gennych hanes o beidio â chydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'n safonau.'

### 1 Ydy'r paragraff diwygiedig yn eglur?

Ydy / Nac ydy

#### 1a Beth arall, os unrhyw beth, y dylid ei ychwanegu neu ei ddileu o'r paragraff?

## Samplo

Dylai gofyn am sampl o gofnodion DPP i'w hadolygu bob blwyddyn annog gweithwyr fferyllol i gadw cofnod o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus yn rheolaidd. Bydd yn caniatáu i ni gyflwyno rhagor o wiriadau gweinyddol dros amser a chanolbwyntio'n sylw ar weithwyr fferyllol a allai ei chael hi'n anos ateb ein gofynion.

### 2 Ydych chi'n cytuno gyda'n dull o alw ar sampl o aelodau cofrestredig i anfon eu cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus i'w hadolygu?

Cytuno / Anghytuno

#### 2a Os nad ydych yn cytuno gyda'r dull hwn, eglurwch pam.

## Dadansoddiad cydraddoldeb

Credwn y dylai'r newid i'r fframwaith gael effaith gadarnhaol ar bobl. Nid ydym wedi nodi unrhyw agweddau arno a fyddai'n camwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolion neu grwpiau nac yn eu rhoi dan anfantais yn anfwriadol.

- 3 **A oes unrhyw agwedd ar y newid rydym yn ei gynnig a allai gael effaith negyddol ar gleifion, aelodau'r cyhoedd, fferyllwyr, technegwyr fferyllol, neu unrhyw grwpiau eraill?**

Oes/Nac oes

- 4 **Oes gennych unrhyw sylwadau ar effaith bosibl y newid i'r fframwaith?**

# Monitro cydraddoldeb

Rydym yn ymrwymedig, yn y CFfC, i hybu cydraddoldeb. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr iechyd. Mae cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb yn bwysig i ni.

Rydym am sicrhau bod gan bawb gyfle i ymateb i'n hymgyngoriad ar y newidiadau a gynigir i'n safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Bydd y ffurflen monitro cydraddoldeb hon yn rhoi gwybodaeth bwysig i ni i sicrhau bod hyn yn digwydd. Nid oes rhaid i chi ei chwblhau ac ni fydd eich atebion yma yn cael eu cyсылtu gyda'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

## Beth yw eich grŵp ethnig?

Ticiwch un blwch

### Gwyn

- Prydeinig
- Gwyddelig
- Arall

### Du neu Brydeinig Du

- Caribïaidd
- Affricanaidd
- Arall

### Cymysg

- Gwyn a du Caribïaidd
- Gwyn a du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- cymysg arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

### Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladeshaidd
- Asiaidd arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)
- Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig
- Grŵp ethnig arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)



## Beth yw eich oedran?

Ticiwch un blwch

- dan 20 oed
- 20 – 29 oed
- 30 – 39 oed
- 40 – 49 oed
- 50 – 59 oed
- 60 + oed

## Beth yw eich rhyw?

Ticiwch un blwch

- gwryw
- benyw
- arall

## Beth yw eich crefydd?

Ticiwch un blwch

- Dim
- Cristion
- Bwdhydd
- Hindŵ
- Iddewig
- Mwslim
- Sikh
- Arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

## Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd?

Ticiwch un blwch

- Ydw
- Nac ydw

# Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u hel at ei gilydd

- 1 Ydy'r paragraff diwygiedig yn eglur?
  - 1a Beth arall, os unrhyw beth, a ddylid ei ychwanegu neu ei ddileu o'r paragraff?
- 2 Ydych chi'n cytuno gyda'n dull newydd o ofyn am sampl o aelodau cofrestredig i anfon eu cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus i'w hadolygu?
  - 2a Os nad ydych yn cytuno gyda'r dull hwn, eglurwch pam.

# **General Pharmaceutical Council**

---

Cyngor Fferyllol Cyffredinol  
25 CanadaSquare  
Canary Wharf  
Llundain  
E14 5LQ

Ffôn: 0203 713 8000

[www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org)

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2016